

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 4ydd Mehefin 2025

### **Presennol**

Cynghorwyr – R Ashton (Cadeirydd) D Jones, I Edwards, F Cauley, B Jones, G Davies, E Lewis, E Davies, P Jones a G Mitchell (Powys)

**Ymddiheuriadau** - E Lewis, S Evans

Cynnigiodd y Cadeirydd, R Ashton, croeso cynnes i bawb.

**Cyflwyniadau** –

**Datganiadau diddordeb** –

### **Cytuno Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol ar 2ail Ebrill a'r Cyfarfod Blynnyddol ar y 7fed o Fai**

Pawb yn gytun

### **Materion yn codi**

1. Cyfleusterau cyhoeddus - Mae bin ar gyfer sbwriel cyffredinol wedi cael ei osod tu allan i'r toiledau
2. "Concealed entrance", Maes yr Efail – S Reast i osod postyn a drych
3. Parcio o flaen hysbysfwrdd a bainc yn Bont – Arwydd wedi cyrraedd – S Reast i'w osod
4. Gwifren BT wedi disgyn wrth y Wig – S Reast wedi adrodd at BT/Open Reach eto. Cadarnhawyd fydd y sietyn yn cael ei thocio ym mis Medi a'i fod yn hanfodol i'r gwifren cael ei symud erbyn hyn
5. Arwydd am y toiledau ar y B4518 a'r A470 – Arwyddion wedi cyrraedd. Mae S Reast, B Jones a E Lewis wedi cerdded o gwmpas y pentref i benderfynnu ble i'w rhoi
6. Coed yn gwyro dros y ffordd yn Llan – Mae'r coed wedi cael ei thocio ond mae'r sietyn gerllaw angen sylw hefyd. S Reast i ysgrifennu at y perchenog
7. Nawdd Windfall – Mae cais am y nawdd i creu llwybr cerdded o Lanbrynmair i Tafolwern bron yn barod i fynd. Cafwyd cyngor gan G Mitchell ynglyn a costau trwydded 'Street Works' i ychwanegu at y cais
8. Sbwriel ar y ffordd o Bont i Talerddig – Mae'r sbwriel wedi ei clirio gan wirfoddolwyr ac mae S Reast wedi ymestyn diolchiadau ffurfiol iddynt
9. Safle Network Rail yn Nhalerddig – Ni chafwyd unrhyw ymatebion i ebyst yn gofyn am sylw nac am wybodaeth ond nid oes yna cwynion ychwanegol chwaith. Mae I Edwards wedi siarad i aelodau'r tîm ar y safle i son am cyflymder rhai o cerbydau y staff
10. Cyfrifion terfynnol a'r awdit llawn – Arwyddwyd yr "Annual Return" gan R Ashton wedi iddo cael ei arolygu gan cyfrifwyr DRE yn Drenwydd. Fydd y siawns i trigolion cael edrych ar y cyfrifon yn cael ei hysbysebu i'r cyhoedd am cyfnod penodol
11. Holiadur am y cae mawr – Cafwyd 5 holiadur yn ôl erbyn hyn ond disgwyli'r mwy i ddod

12. Adroddiad bioamrywiaeth – S Reast a F Cauley i gydlynu – dim diweddariad
13. Baw/cerdded cŵn – Cytynwyd trefnu cyfarfod cyhoeddus i drafod defnydd y cae mawr yn cynnwys lle ar wahan i cwn
14. Grŵp Cyswllt Cymunedol Esgair Galed – Gwahoddwyd dau aelod o'r Cyngor i mynychu cyfarfodydd y grŵp i rhannu gwybodaeth. Mynegwyd diddordeb gan R Ashton a B Jones
15. Goleuadau stryd – Cafwyd cyfarfod gyda tîm goleuadau stryd Powys a G Mitchell a F Cauley. Mae yna cynllyn adnewyddu ar y gweill dros y sir i gyd ac fe nodwyd anghenion Llanbrynmair. Bydd yna siawns i'r gymuned dewis oriau goleuo yn ystod y nôs i arbed egni ac i amddiffyn bioamrywiaeth
16. Parcio ar y cae mawr a cyflenwad cerrig – I Edwards i edrych allan am cyfle i casglu cerrig dros ben i'w ddefnyddio ar y cae
17. Glanhau lloches bws Talerddig – S Reast i rhoi galwad ar Facebook am gwirfoddolwyr i gwneud y gwaith
18. Adroddiad gan Powys ynglyn a'r stafell snwcer – Rhaid gwneud yn siwr fod unrhyw darn o asbestos yn yr adeilad yn cael ei orchuddio i fod yn saff. R Ashton i gwneud ymholiadau
19. Arwyneb pafin yng Nghlanclegyr yn dirywio – S Reast i cymeryd lluniau ac i adrodd i Powys
20. Ffens tu allan Dol y Bont yn gwyro i'r llwybr – S Reast wedi adrodd i Powys ac mae'r gwaith adnewyddu ar y gweill
21. Tractor Run yn defnyddio'r cae mawr ar y 8ed o Fehefin – Er wybodaeth
22. Datblygiadau Hafodwen – Pryderon wedi ei adrodd i'r adran cynllunio gan G Mitchell ond rhybyddwyd ei fod yn cymeryd hyd at 84 diwrnod i cael ymateb
23. Lwfansau Cynghorwyr – Cadarnhawyd bod hi'n bosib i'r cyfrif cadw cael ei ddefnyddio ar gyfer taliadau lwfansau. Cafwyd ffuflenni yn gofyn am gwrthwynebu neu derbyn lwfansau eu llenwi gan y Cynghorwyr oedd yn bresennol
24. Prosiect Amddiffyn Gwasanaethau Bronglais – Cyflwynwyd a chytynwyd draft o lythyr i ddanfon at yr ymgyrch i'w gefnogi

## Materion ffyrdd

### CSP

| Lleoliad                                                     | Adroddwyd | Nodiadau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|--------------------------------------------------------------|-----------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cyflymder ceir trwy Bont a Llanbrynmair                      | Ie        | Gofynwyd i trigolion cofnodi platiau rhif a'u adrodd trwy safleoedd we OperationSnap neu GoSafe. Cynnigwyd rhoi bwgan brain efo siaced 'high vis' ar ochr y ffordd<br>Mae GoSafe wedi gohirio hyfforddiant tra fod arolwg diogelwch ar y gweill. Cafwyd wybod bod yna trigolyn sydd wedi gwneud yr hyfforddiant yn barod – S Reast i gwneud fwy o ymholiadau |
| Arolwg ffordd rhwng Bont a Talerddig ar ôl i'r A470 ail agor |           | E Davies a swyddogion Powys wedi gwneud y daith arolygu. G Mitchell wedi cyflwyno rhestr o waith sydd wedi ei cadarnhau a'i ariannu gan y Senedd                                                                                                                                                                                                             |
| Ffordd i Clegyrnant a Blaen Cwm                              |           | S Reast a G Mitchell wedi gyrru ar hyd y ffordd i asesu'r difrod. Cafwyd gwybodaeth na fydd fwy o draffig                                                                                                                                                                                                                                                    |

|                                 |  |                                                                                                                                             |
|---------------------------------|--|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                 |  | coedwigaeth yn digwydd am cwpwl o flynyddau ac mae trefniadau'r perchnogion yn ansicr yn y dyfodol ar hyn o bryd. Anhebyg o gael sylw eleni |
| Ffordd Brook i lawr i Tafolwern |  | Ochrau yn chawlu – wedi trwsio                                                                                                              |
| Cerrig ar ochr y ffordd yn Bont |  | Mae'r cerrig oedd yn achosi problemau wedi eu symud                                                                                         |

### Asiant Cefnffyrdd

| Lleoliad                        | Adroddwyd | Nodiadau                                                                                                                                            |
|---------------------------------|-----------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| A470                            |           | Disgwylir cadarnhad am arwyneb newydd i'r ffordd trwy Pont Bel                                                                                      |
| Cyflwr y ffordd dros Pont Brics | le        | Anhebyg fydd hwn yn cael sylw tra fydd gwaith ar y gweill yn Nolgoch ond fydd y tyllau fwy difrifol yn cael eu lenwi. S Reast i ofyn am diweddariad |

### Goleuadau stryd

| Lleoliad      | Adroddwyd | Nodiadau                           |
|---------------|-----------|------------------------------------|
| Llan Hen Siop | le        | LLN06 wedi ei adnewyddu            |
| Llan          | le        | LLN05 wedi torri – Gwelwch rhif 15 |

### Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

#### Gohebiaeth

- Diolch gan SSFA Lluoedd Arfog am gyfraniad o £100.00

#### Cynllunio

#### Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 16/05/25

|                         |            |
|-------------------------|------------|
| Cyfrif Cyfredol         | £9,218.64  |
| Cyfrif Cadw             | £2,984.19  |
| Cyfanswm                | £12,302.83 |
| Sieciau heb eu cyflwyno | £0         |
| Balans ar gael          | £12,302.83 |

#### Ceisiadau a thaliadau ariannol

| £        | Eitem                                        | Cyfanswm | Nodiadau |
|----------|----------------------------------------------|----------|----------|
| 04/06/25 | Cyflog y Clerc – Mai                         | £417.60  | Cytunwyd |
| 04/06/25 | Treth ac NI ar cyflogau - Mai                | £120.15  | Cytunwyd |
| 04/06/25 | Border Janitorial Supplies                   | £114.51  | Cytynwyd |
| 04/06/25 | Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu – Mai | £120.00  | Cytynwyd |
| 04/06/25 | Joanna Whiteway - Glanhau'r toiledau         | £312.40  | Cytynwyd |

|          |                                |         |          |
|----------|--------------------------------|---------|----------|
| 04/06/25 | E.ON Next - Trydan             | £26.85  | Cytynwyd |
| 04/06/25 | DRE & Co. – Costau trefnu PAYE | £126.60 | Cytynwyd |
| 04/06/25 | PHS – Gwasanaeth blyneddol     | £880.04 | Cytynwyd |
| 04/06/25 | Costau teithio y Clerc         | £18.90  | Cytynwyd |

Cafwyd rent o £1.00 ar gyfer y cae chwarae ei dalu gan Mr Alwyn Jones eto eleni. S Reast i ysgrifennu llythyr o ddiolch

### **Unrhyw fater arall**

#### **Eitemau ar gyfer yr agenda nesa**

- D Jones – Defnydd o iard y Cyngor
- B Jones – Car wedi parcio ar y ffordd yn Nolfach
- P Jones – Problemau cyfathrebu gyda Cyngor Sir Powys er mwyn gwneud taliadau
- I Edwards – Golau stryd wrth troiad Llanerfyl ar gyfer plant yn dychwelyd o'r ysgol fin nôs
- F Cauley – Gorchudd 'Water main' yn Llan allan o'l le

**Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol canlynol ar Nos Fercher, 2ail mis Gorffennaf 2025.**

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair